



Ein cyf: WQ84160

Mabon ap Gwynfor AS
Aelod o'r Senedd dros Etholaeth Dwyfor Meirionnydd

Mabon.ap.Gwynfor@senedd.cymru

27 Ionawr 2022

Annwyl Mabon,

Diolch ichi am eich Cwestiwn Ysgrifenedig diweddar yn sgil datganiad Sgrinio Serfigol Cymru ar ymestyn y cyfnod arferol rhwng profion sgrinio o dair blynedd i bum mlynedd – os nad yw'r feirws papiloma dynol yn cael ei ganfod o ganlyniad i brawf ceg y groth. Roedd eich cwestiwn yn gofyn sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad yw anghenion iechyd menywod yn cael llai o flaenoriaeth ar adeg pan fo'r gwasanaeth iechyd o dan bwysau.

Fel gweddill y DU, mae Llywodraeth Cymru yn dilyn y cyngor arbenigol ac annibynnol a ddarperir gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU. Yn 2019, fe wnaeth y pwyllgor argymhelliad y dylai pob gwlad yn y DU weithredu'r prawf sgrinio serfigol newydd a newid y cyfnod rhwng profion sgrinio o dair blynedd i bum mlynedd, ar gyfer y rheini sy'n cael prawf negatif ar gyfer y feirws papiloma dynol. Gwnaed yr argymhelliad hwn ar ôl blynyddoedd o ymchwil, a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus i'r DU gyfan.

Cafodd y newid hwn i'r cyfnod sgrinio serfigol ei wneud er lles menywod a phobl sydd â cheg y groth. Mae sgrinio bob pum mlynedd, gan wneud prawf ar gyfer y feirws papiloma dynol, yn cynnig amddiffyniad sydd o leiaf cystal â'r hen brawf a gynigir bob tair blynedd, ac mae'n sicrhau bod y rhaglen sgrinio'n gallu targedu gwasanaethau at y rheini sydd yn y perygl mwyaf o ran cael canser serfigol. Ni fydd y rheini sy'n mynychu profion ceg y groth yn ystod y tair blynedd nesaf yn gweld unrhyw newid. Bydd y newid yn y cyfnod sgrinio yn cael ei weithredu ym mis Ionawr 2025, pan ofynnir i bobl, sy'n cael canlyniad negyddol ar gyfer y feirws papiloma dynol yn eu hapwyntiad sgrinio nesaf, fynychu apwyntiad sgrinio dilynol yn 2027, yn lle 2025.

O ran eich pwynt ehangach ynglŷn ag iechyd menywod, mae COVID-19 wedi creu heriau digynsail i'r GIG yng Nghymru a'r DU yn gyffredinol. Fel llawer o wasanaethau ar draws ein system iechyd, mae'r pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar y ddarpariaeth gynaeoleg. Cafodd canllawiau eu datblygu a'u cyhoeddi er mwyn helpu byrddau iechyd i ailddechrau gwasanaethau sydd wedi cael eu gohirio o ganlyniad i COVID-19.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n hanfodol bod clinigwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau gynaecelegol yn adolygu eu rhestrau aros, er mwyn cymryd y camau priodol i ail-flaenoriaethu cleifion, rhai ohonynt sy'n aros am fisoedd neu hyd yn oed blynnyddoedd, gan gynnig trefniadau addas i leihau nifer y menywod sy'n aros i gael archwiliad neu driniaeth gynaecelegol. Mae'n bwysig bod menywod ar restrau aros gynaeceleg ledled Cymru yn cael yr wybodaeth a'r cymorth gorau posibl tra maent yn disgwyl eu cyfle i gael gofal. Dylai hyn o leiaf gynnwys darparu cyngor, sydd wedi ei deilwra ar gyfer yr unigolyn, ynghylch rheoli poen a symptomau, a'r opsiynau ar gyfer triniaethau posibl eraill y gellid eu tra maent yn aros i gael llawdriniaeth.

Cafodd y Grŵp Gweithredu ar Iechyd Menywod ei sefydlu ym mis Mawrth 2018 fel grŵp sy'n cael cyfarwyddyd gan Weinidog i ystyried adroddiadau ar y defnydd o dâp a lliniau rhwyll synthetig y wain ar gyfer anymataliaeth wrinol sy'n gysylltiedig â straen a phrolaps organau'r pelfis, endometriosis ac Anymataliaeth Ysgarthol. Ers iddo gael ei sefydlu, cafodd y grŵp £1m y flwyddyn i greu rhwydwaith o gydgyssylltwyr llesiant ac iechyd y pelfis ym mhob bwrdd iechyd. Mae'r cydgysylltwyr hyn yn cyflawni'r rôl hanfodol o roi sylw i'r materion hynny, sy'n gysylltiedig ar draws meysydd iechyd y pelfis, sy'n effeithio ar fenywod. Yn fwy diweddar, mae hefyd wedi ei gwneud yn bosibl recriwtio rhwydwaith o nyrsys endometriosis arbenigol ym mhob bwrdd iechyd i ddatblygu llwybrau cenedlaethol i helpu i leihau amseroedd diagnostig ar draws Cymru.

Yn gywir,



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services